# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
# 7.2.22

**Yn bresennol:** Arwyn Williams (Pennaeth Ysgol Tryfan) (Cadeirydd)

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorwyr Cemlyn Williams (Addysg) a Ioan Thomas (Cyllid)

**Pennaeth Cyllid:** Dewi Aeron Morgan

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Clive Thomas (Ysgol Syr Hugh Owen), Neil Foden (Ysgol Friars) a Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog).

Cynradd: Richard Jones (Ysgol Garndolbenmaen/Chwilog), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn), Alan Jones (Ysgol Cymerau), Edward Bleddyn Jones

**Llywodraethwyr:** Godfrey Northam (Llywodraethwr Ysgol Dyffryn Ogwen), Gwilym Eifion Roberts (Ysgol Godre'r Berwyn) a Gwilym Jones (Ysgol Borthygest).

**Ysgolion Eglwys:** Elfed Morgan Morris (Ysgol Llandygai)

**Ysgolion Arbennig:**

**Esgobaeth:** Sedd Wag

**Sylwedydd:** Gwenan Davies Jones (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd)

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg), Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion), Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad), Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwyboaeth), Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) Ffion Bryn Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iona Wyn Jones, Debbie Anne Jones a Donna Roberts

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2021 fel rhai cywir.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION-

## 6. BALANSAU YSGOLION BLWYDDYN GYLLIDOL 2020/21

Cyflwynwyd y rhan yma gan Cyfrifydd Grŵp Ysgolion.
Rhannwyd Datganiad gan Llywodraeth Cymru ar Falansau Ysgolion Cymru yn ei gyfanrwydd. Nodwyd fod y cyfanswm o Falanasau yn ysgolion Cymru wedi cynyddu o oddeutu £150 miliwn yn y flwyddyn Covid cyntaf. Credwyd yn gryf mai prif reswm hynny oedd gan fod yr ysgolion wedi bod ynghau dros gyfnodau yn ystod y pandemig i ran helaeth o'r disgyblion.
Eglurwyd nad oedd yr un ysgol mewn diffyg yng Ngwynedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol diwethaf- ond fod £17 miliwn o falansau negyddol wedi cronni drwy Gymru yn y flwyddyn ariannol diwethaf. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai Gwynedd yn rhif 7 o'r 22 awdurdod yng Nghymru o'r Balansau uchaf pe baï'r balansau negyddol yn cael eu diysytru.

Dyma'r pwyntiau a godwyd o'r drafodaeth-

- Nodwyd fod angen cofio fod Gwynedd yr ail uchaf o'r balansau fesul pob disgybl yn unigol a fod angen cysidro yn y farn tuag at y Balansau. Cynigwyd fod hyn o ganlyniad i gymorth athrawon llanw a chyflenwad i gefnogi disgyblion bregus. Pryderwyd sut y byddent yn rheoli gwahanol ffyrdd wnaiff ysgolion ddelio efo'r grantiau hwyr hyn gyda rhai am gario mwy o falans drosodd a'i gilydd.
- Pryderwyd fod ysgolion wedi cael eu cyfarch â llawer o grantiau hwyr eleni, a gofynnwyd beth oedd yn ddisgwyliedig o'r ysgolion wrth eu derbyn. Eglurwyd fod y Llywodraeth ac Estyn wedi adrodd mewn cyfarfod ADIW eu bod yn cydnabod fod y grantiau yn creu balansau ffug. Sicrhawyd fod hyn yn cael ei ragweld ac felly'n debygol na fyddai ysgolion yn cael eu cosbi am y ffigyrau hyn.
- Tynnwyd sylw at y ffaith fod y balansau wedi bod yn gymharol uchel cyn Covid ac felly fod angen rhoi ystyriaeth i hyn. Nodwyd fod Cyllidebau Addysg wedi cael eu gwarchod yn arw yn ystod y pandemig a heb orfod gwynebu cwtogiadau fel gweddill yr adrannau, ac felly fod angen gwneud rhywbeth i wella'r balansau. Pwysleisiwyd er hyn, nad oes angen diystyru effaith y pandemig yn gyfan gwbl
- Pryderwyd y bydd y sefyllfa ariannol yn parhau yn y blynyddoedd i ddod a fod y grantiau hwyr yn cyfrannu at hyn. Cydnabuwyd fod y Llywodraeth yn cefnogi ysgolion efo gwariant ychwanegol sydd wedi dod o sgil Covid, ond fod angen ystyried oblygiadau hyn ar y balansau i'r dyfodol. Poenwyd y bydd ysgolion yn cael eu cosbi efo'r balansau hyn a bydd angen cyfiawnhau y gwariannau sydd i ddod i osgoi hyn.
- Eglurwyd fod gwariant parhaol ar staffio ond nad oedd grantiau yn cael eu darparu i ysgwyddo'r gyllideb yma.
- Parhawyd gyda'r bryder o staffio. Mynegwyd mai nawr oedd rhai o effeithiau hir dymor yn dangos ei hun, gyda'r brif un yn pa mor fregus ydi disgyblion. Nodwyd i ateb hyn fod angen staff ychwanegol i gefnogi'r digyblion, ac y bydd angen sicrhau'r gyllideb yma am flynyddoedd i ddod.
- Mynegwyd rhwystredigaeth dros y grantiau hwyr hyn a dymuniad i hyn gael ei gynllunio'n well yn y dyfodol.

PENDERFYNIAD – Derbyn y diweddariadau a'r adroddiad.

## 7. GRANTIAU YSGOLION 2021/22

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion yn crynhoi'r grantiau ysgolion 2021/22 sydd wedi eu datgan hyd yma.

Eglurwyd fod gwerth bron i £12 miliwn o grantiau wedi eu derbyn ers yr Haf diwethaf, a bellach mae grantiau ychwanegol wedi eu cyflwyno yn ychwanegol atynt. Cydnabuwyd fod hyn yn rhoi effaith mawr ar gyllideb ysgolion ond nad yw'n dderbyniol i ysgolion ddibynu ar yr incwm ychwanegol o flwyddyn i flwyddyn. Nodwyd fod grant megis £3 miliwn i'r sector Cynradd yn cael ei ddyrannu yn flynyddol, a bellach y dylid ei roi yn y setliad.
Nodwyd fod dros £1 miliwn o grantiau wedi ei rannu er lles anghenion dysgu ychwanegol. Rhannwyd £385 mil yn fwy o grant cyfnod sylfaen. Rhannwyd £300 mil o'r grant 'gaeaf llawn llesiant', sef grant i annog gweithgareddau tu allan i'r ysgol. Derbyniwyd dros £1.1 miliwn o grant ar gyfer y rhaglen cyflymu dysgu o Medi i Fawrth eleni, ac fe fydd £1.2 miliwn pellach o grant cyflymu dysgu.

Pwysleiswyd er fod y grantiau hyn yn nodi fod angen eu gwario erbyn 31 Mawrth, nid yw'n ddisgwyliedig i hyn ddigwydd, ac yn hytrach ei fod yn bwysicach i gyfiawnhau gwario rhesymol. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn cymryd hyn i lawn ystyriaeth. Eglurwyd fod Grant Refeniw cynnal a chadw i ryddhau adnoddau o un flwyddyn i'r llall i gefnogi cynllunio gwariant at y dyfodol. Nodwyd mai gwerth hwn oedd £1.8 miliwn.

Mi dderbyniwyd £5.5 miliwn o Gaerdydd, a £1 miliwn yn ychwanegol gan GwE sydd yn ychwanegol i'r cyllid roddwyd yn yr Haf.
Tybiwyd o ganlyniad i'r balansau ychwanegol yma y bydd y balansau yn uwch eleni nag oeddent yr adeg yma flwyddyn diwethaf.
Pwysleisiwyd fod angen i ysgolion ystyried eu bod yn defnyddio £3.5 miliwn o falansau llynedd yn ran o'u cyllidebau eleni.
Eglurwyd fod costau aruthrol yn dilyn cynydd mewn pris contractwyr ac adnoddau adeiladu, sydd yn golygu fod costau cynnal a chadw adeiladau yn achosi straen ar leoliadau.

PENDERFYNIAD – Derbyn y diweddariadau a'r adroddiad.

## 8. DIWEDDARIAD GWEITHGOR CYLLID ADY

Cyflwynwyd gan y Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Arbennig.

Rhannwyd mai'r cam nesaf yn y broses ydi i ymgynghori efo grwpiau strategol i ganfod yr opsiynau gorau i'r gyllideb. Nodwyd fod yr ymgynghoriad yma am ddatgan os ydi'r gweithgor a'r Fforymau yn cydweld efo'r dyraniad gorau o'r arian. Dywedwyd y bydd ymgynghori yn dechrau efo Penaethiaid cyn y Pasg
Eglurwyd mai yn Ebrill neu Medi 2023 fydd y gweithredu yn dechrau arni, yn ddibynnol ar ganlyniad a therfyn y gwaith ymgynghori.

PENDERFYNIAD – Derbyn y diweddariadau a'r adroddiad.

## 9. CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI

Cyflwynwyd gan Uwch Reolwr Ysgolion.

Atgoffwyd y byddent yn gofyn am gyfraniad gan ysgolion i gefnogi'r gwaith gan sicrhau y byddent yn cydberchnogi'r darpariaeth addysg drochi.
Eglurwyd nad oedd pethau wedi medru symud mor gyflym ag y hoffen nhw, ac felly ni fyddent yn gofyn am gyfraniad at y gwaith yn 22/23 ar hyn o bryd.
Nodwyd nad ydynt yn disgwyl cael pennaeth a staff i'r strwythur hyd nes Medi '22 yn dilyn gorfod ail hysbydebu'r swydd. Dywedwyd fod sefydlu un o'r lleoliadau wedi llithro hyd at Ionawr '23 i allu agor, yn hytrach na Medi '22.
Cadarnhawyd y bydd yr Adran Addysg yn cael eu diweddaru os fydd unrhyw costau ychwanegol yn codi yn y broses. Disgwylwyd i dderbyn cyfraniad gan yr ysgolion o Ebrill '23 ymlaen, sydd yn flwyddyn o oediad i lle yr ydyn nhw rŵan. Soniwyd y bydd diweddariadau cyson yn cael ei rannu ac y bydd diweddariad cadarn erbyn yr Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, boed yn ddiweddariad ar lafar neu yn eitem yn yr agenda i'r Fforwm.

PENDERFYNIAD – Derbyn y diweddariadau a'r adroddiad.

## 10. RÔL FFORWM

Cyflwynwyd gan yr Uwch Gyfreithiwr.

Eglurwyd ei bod hi wedi dod yn ofyniad statudol o 2003 ymlaen i bob Awdurdod Lleol i ffurfio Fforwm o'r fath yma i rannu a chyhoeddi penderfyniadau Cyllidebol Ysgolion. Penderfynwyd ar fformat y Fforwm yng Ngwynedd gan y Bwrdd y cyfnod hwnnw, neu'r Cabinet fel mae'n cael ei adnabod bellach. Eglurwyd fod rhaid cael oleiaf 15 aelod ar y Fforwm, a rhain efo cyswllt i ysgolion megis Penaethiaid a Llywodraethwyr. Nodwyd fod modd cael aelodau allanol ond nad ydynt ddim mwy na 25% o'r holl aelodaeth megis- gan gynnwys swyddogion a cyrff awdurdodol. Eglurwyd fod angen enwebiadau i benodi'r aelodau hyn. Caniatawyd ar y pryd i gyrff bleidleisio i gael unigolion i ymuno i arsylwi'r Fforwm.
Tynnwyd sylw fod yr aelodaeth bresennol yn dilyn patrwm cyffelyb i'r aelodaeth wreiddiol, oni bai am newid mewn swyddi a newid yn strwythur y Cyngor. Nodwyd fod dyletswydd i'r Fforwm adrodd i gyrff llywodraethu ysgolion. Eglurwyd mai mater i awdurdodau lleol oedd i nodi a pennu pa mor aml sydd angen i'r Fforwm gyfarfod, er ceir argymhelliad yn y ddogfen arferion da i'w dilyn â ffurfiwyd yn 2010.

Sylwadau a godwyd –
- Pryderwyd fod y nodiadau yn nodi mai hyd at 4 mlynedd dylai aelodaeth unigol barhau. Nodwyd mai argymhelliad oedd hyn yn unig a nad oedd rhaid dilyn hyn yn dynn.
- Eglurwyd fod lle i addasu a rhannu sylwadau ynghylch â'r ddogfen grëwyd i'r eitem i'w wneud yn addas i'r Fforwm bresennol megis ychwanegu ac addasu'r swyddogion sydd angen bod yn bresennol i'r Fforwm. Pwysleisiwyd y byddai angen mynd â'r awgrymiadau ar strywthur y Fforwm ymlaen at y Cyngor i'w ystyried a'i benderfynu yn derfynol.
- Mynegwyd na fyddai penodi dirprwyon yr arfer orau i'r Fforwm yma i gael cysondeb yn yr aelodaeth sy'n bresennol.

PENDERFYNIAD – Derbyn y diweddariadau a'r adroddiad.

**11. CYLLIDEB 2022/23**

Cyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Gyllid, a'r Pennaeth Cyllid.

Nodwyd y byddai'r cyflwyniad o'r Gyllideb yn cael ei roi ymlaen i'r Cyngor Llawn, yn dilyn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet. Eglurwyd fod cyfres o seminarau a chyflwyniadau wedi bod drwy Ionawr i drafod ac egluro'r drefn gyda'r gyllideb i'r aelodau. Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd diweddariadau cyson ar y gyllideb os y bydd unrhyw newidiadau neu addasiadau i'r ffigyrau a'r amserlen.

Rhannwyd fod y setliad arferol o grantiau Llywodraeth yn 9.4% ar gyfartaledd yng Nghymru, lle mai 8.8% ydi o i ni yng Ngwynedd sydd yn argoeli'n dda. Eglurwyd mai'r rheswm tebygol fod Gwynedd yn derbyn is na'r gyfartaledd ydi fod poblogaeth îs yn y Sir o'i gymharu â siroedd eraill yng Nghymru. Nodwyd ei fod yn swm sylweddol fwy i'r hyn sydd am fod flwyddyn nesaf sef 3.5%, a 2.4% y flwyddyn ganlynol. Eglurwyd mai 5% oedd y chwyddiant presennol, ond fod pryder yr aiff fyny i 7% erbyn Ebrill. Amlygwyd fod y chwyddiannau hyn am achosi costau uwch.

Atgoffwyd ein bod wedi derbyn £16 miliwn o gymorth ariannol tuag at COVID gan Llywodraeth Cymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yma. Eglurwyd fod angen gwneud cyfrifadau i'n gwarchod at y dyfodol yn dilyn derbyn cymorth ariannol o'r fath, gan gofio na fydd y gefnogaeth ariannol yma yn cael ei ddosbarthu y flwyddyn nesaf.

Mynegwyd neges o ddiolch ar ran y cyn Bennaeth Cyllid i aelodau'r Fforwm am yr holl gyd-weithio dros y degawdau.

Eglurwyd mai'r hafaliad i gael cyllideb cytbwys ydi fod gwariant net yn llai na'r arbedion yn hafal i cyfanswm grantiau llywodraeth a treth Cyngor. Nodwyd eu bod wedi creu rhagdybiaethau synhwyrol o'r chwyddiant fydd i ddod wrth ddamcaniaethu'r gyllideb yn y flwyddyn sydd i ddod. Parhawyd fod y rhagdybiaethau hyn yn cynnwys cyfrifiadau chwyddiant mewn cyflogau a chyflenwadau, effaith Covid a setliadau grantiau. Nodwyd mai un o'r chwyddiannau mewn cyflogau ydi y cynyddiad yng nghyflogau athrawon o 1.75% yn y pum mis sydd yn weddill yn y flwyddyn academaidd. Damcaniaethpwyd cynnydd pellach ar gyfer y cyfnod academaidd newydd o Medi ymlaen at ddiwedd y flwyddyn economaidd yma. Eglurwyd hefyd fod ystyriaeth i'r cynnydd mewn mewnbwn yswiriant gwladol o 1.25%. Nodwyd fod cyfrifiad o chwyddiant o £2.6 miliwn i gyd efo'i gilydd ar draws y Cyngor gan gynnwys costau ynni a thanwydd, gofal preswyl ayb.

Nodwyd fod addasiadau pellach wedi bod i Ddemograffi Ysgolion i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Nodwyd fod gostyngiad yn niferoedd y digsyblion yn y Cynradd, ond cynnydd yn y niferoedd o ddisgyblion Uwchradd. Eglurwyd fod y gwariant net wedi cael gostyngiad o £57 mil o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Atgoffwyd fod effaith tebyg wedi bod yn y niferoedd flwyddyn diwethaf hefyd.

Eglurwyd mai canlyniad hyn oll ydi gwariant o £13.2 mil pellach i ymateb ar alw y chwyddiant, yn ychwanegol i wariant ychwanegol o £8.1 mil ar bwysau gwasanaeth.
Nodwyd fod y Cyngor wedi derbyn cyllideb i gefnogi costau COVID hyd at y flwyddyn ariannol nesaf, ond fod hyn yn golygu fod angen darparu cyllideb ein hunain i gefnogi'r effeithiau fydd yn cario at y flwyddyn ariannol nesaf.

Mynegwyd fod pwysau i gynyddu treth Cyngor i gyfiawnhau'r costau ychwanegol yma. Tynnwyd sylw at y ffaith y gall hyn fod yn drafferthus gan fod llai o adeiladau cymwys i dalu treth Cyngor eleni, yn bennaf oherwydd y niferoedd o gartrefi preswyl sydd wedi eu trosi i fod yn unedau gwyliau a nad oes anneddau yn dod fewn yn eu lle.

Eglurwyd wrth gau cyfrifon 2020/21 fod cyfle wedi dod i agor cronfa adfer Covid Gwynedd, sydd bellach wedi cronni oddeutu £1.4 i ddelio efo gofynion Covid. Nodwyd fod y gronfa strategaeth ariannol hefyd ar gael os eith hi'n orfodol arnom.
Mabwysiadwyd trefn newydd wrth ymateb i geisiadau colled incwm yn sgîl yr argyfwng a bellach eu bod yn cael eu trefnu yn ôl blaenoriaeth gan nad oes modd i'r Cyngor ymateb i'r gost arferol £14.5 miliwn sydd wedi bod.

Nodwyd eu bod wedi llwyddo i Wireddu Arbedion, eglurwyd fod dros £32.8 wedi ei arbed gan y Cyngor ers 2015/6. Eglurwyd o ganlyniad i'r setliad gwell nag arfer eleni fod y Cyngor wedi llwyddo i oedi ar arbedion oedd wedi cael ei fwriadu i wireddu yn y flwyddyn ariannol 2022/23. Nodwyd ymhellach fod ffigwr o £1.3 miliwn wedi llwyddo i gael ei lithro i'r flwyddyn 2023/24 neu hwyrach, a llwyddo i ddileu dau gynllun arbedion yn llwyr o'r cynlluniau arbedion sy'n gostwng y nifer o arbedion i'w cyrraedd o hanner miliwn. Dywedwyd ymhellach fod COVID yn parhau i amharu ar y cynlluniau arbedion ond fod hyn wedi cael ei hwyluso o ganlyniad i'r setliad sydd ganddyn nhw yn bresennol. Parhawyd nad oedd arbedion newydd i ysgolion nac ychwaith i'r Adran Addysg yn y flwyddyn ariannol 2022/23.

Rhannwyd £0.5 miliwn y flwyddyn o fidiau cyfalaf yn cael eu dosbarthu yn gyson, yn ychwanegol i unrhyw fidiau sydd yn cael eu cynnig fesul blwyddyn. Eglurwyd fod y bididau yma yn cael eu defnyddio at unrhyw achos sydd yn codi ac angen ei ddatrys yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, megis, dosbarthwyd £118 mil tuag at Cae Cymunedol Ysgol Syr Hugh Owen. Nodwyd fod Bidiau Un Tro wedi cefnogi cronfa unwaith ac am byth o £6.1 miliwn yn y flwyddyn 2022/23. Eglurwyd fod y gyllideb yma'n cefnogi cyflogi Swyddog Hybu Cinio Am Ddim at y flwyddyn 2022/23. Nodwyd fod bron i hanner y gyllideb Un Tro yn cefnogi llawer o brosiectau sy'n ymwneud â newid hinsawdd yn y flwyddyn sydd i ddod hefyd.

Nodwyd fod £6.7 miliwn o Fidiau Refeniw Parhad, sef cyllideb fydd yn ymddangos yn barhanol o fewn y gyllideb, ac mae £449,539 o hyn yn cael ei roi i'r adran addysg. Eglurwyd fod cyfran mawr o'r arian yma'n mynd ar ddiogelu na fydd disgyblion Ôl-16 yn gorfod talu am ei tocyn teithio, at cludiant tacis a threnau ysgolion a chyflogi Swyddog Addysg Uwchradd.

Eglurwyd fod chwyddiant ac addasiadau angenrheidiol wedi creu costau o £12 miliwn sydd yn gorfodi cynnydd treth o 2.9%. Parhawyd i egluro y byddai'n rhaid cael cynydd o 1.5% i gadw ar ben y chwyddiant sydd eleni, ac fe fyddai'r gweddill o'r canran yn sicrhau na fydd effeithiau gormodol ar y gwasanaethau. Eglurwyd mai effaith y chwyddiant yma ar unigolyn fyddai'n talu treth Cyngor ar fand D, fydd 84 ceiniog o gynnyd ar dreth wythnosol gyda chyfanswm o dreth yn dod i £29.37.

PENDERFYNIAD – Derbyn y diweddariadau a'r adroddiad.

## 12. STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION

Cyflwynwyd gan y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth.

Diweddarwyd y prosiect hyd yn hyn, ac eglurwyd nad oedd yr adroddiad yn rhoi cyfiawnhad o faint o waith sydd wedi mynd rhagddo yn y flwyddyn diwethaf. Tynnwyd sylw at y ffaith fod mwy o ddatblygiadau wedi bod yn yr adran Cynradd na'r Uwchradd ar hyn o bryd.

Atgoffwyd ar Tachwedd 9 2021 eu bod wedi derbyn caniatâd i dderbyn y Strategaeth Ddigidol a chytundeb i ddarparu hanner y gost i gael gliniaduron i CA2 Uwchradd ac i'r athrawon, a thabledi i'r Sylfaen gan y Cabinet. Eglurwyd fod y gyllideb yma yn ychwanegol i'r gyllideb blaenorol o £2.25 miliwn i adnewyddu'r dechnoleg y rhwydwaith. Eglurwyd dros gyfnod o 10 mlynedd fod angen ymrwymo i wariant o oddeutu £10 miliwn ar gyfer yr offer. Tynnwyd sylw fod dros 61% o'r gyllideb yma am gael ei gyfrannu gan y Cyngor.

Nodwyd fod trafodaethau o'r fath wedi cael eu cynnal ym Môn cyn y Nadolig hefyd o fewn eu Pwyllgorau gwaith. Eglurwyd mai'r brif drafodaeth sydd angen tynnu sylw ato ydi mewnoli'r gefnogaeth. Gobeithiwyd i fewnoli'r gefnogaeth Technegol i gefnogi'r ysgolion, ac eglurwyd fod hyn yn parhau i fod mewn trafodaeth efo'r cwmni Cynnal gan y ddau Gyngor i drafod y gwaith ag effaith gwneud hyn ar y cwmni. Nodwyd fod trafodaethau cyfreithiol a chyflogaeth yn cael eu cynnal i drafod effeithiau mewnoli ar y Cyngor. Sicrhawyd y bydd cadarnhad o'r trafodaethau hyn erbyn Ebrill 1, ynghyd a'i strategaeth gyllido. Esboniwyd y byddai rhywbeth o'r fath yn gorfodi i'r Cyngor gyflogi staff ychwanegol. Nodwyd y bydd treial o'r cynllun peilot yn cael ei dreialu cyn y Pasg, gyda gliniaduron yn cael eu blaenoriaethu i staff yna ddisgyblion Uwchradd. Eglurwyd fod yr amserlen yma'n ddibynnol ar yr amserlen gan y tîm cyfreithiol.

Sylwadau a godwyd o'r drafodaeth-

- Gofynnwyd beth oedd y ddarpariaeth yswiriant i'r adnoddau a sut oedd hyn yn cael ei weithredu. Atebwyd nad oedd trefniadau penodol yn ei le eto, ond fod ymchwil i bolisïau mewn lle gyda'r polisi gorau ar hyn o bryd am fod yn £24 yr un y flwyddyn. Disgwylid cadarnhad ar yr opsiynau polisau gwahanol sydd ar gael gan ystyried y byddent yn derbyn y cyfarpar am 5 mlynedd ond bod posibilrwydd y bydd rhai yn torri neu yn mynd ar goll. Cadarnhawyd y bydd diweddariadau cyson yn cael eu rhannu.
- Holwyd os y bydd lleoliadau diogel yn cael eu cynnig i gadw'r gliniaduron yn ddiogel. Eglurwyd fod costau sylweddol ynghlwm â chabinet gwefru a bod angen rhoi ystyriaeth ddwys i wir angen y ddarpariaeth.
- Poenwyd os y bydd digyblion yn cael eu darparu efo gliniadur newydd os bydd diffyg efo'r un dderbynir ar y dechrau. Nodwyd y bydd gobaith i gyflenwi'r disgyblion efo gliniadur newydd os bydd dim modd arbed y gliniadur sydd ganddynt yn barod.
- Rhannwyd lawer o bryder cymdeithasol a ddeir o ganlyniad i ddisgyblion yn cario gliniaduron drud efo nhw tu allan i'r ysgol, boed yn darged i gael eu dwyn neu yn eu gwerthu eu hunain.

PENDERFYNIAD – Derbyn y diweddariadau a'r adroddiad.

## 13. DYRANIAD CYNNAL TIROEDD YSGOLION

Cyflwynwyd gan Uwch Reolwr Ysgolion.

Nodwyd fod angen tynnu'r cyfeiriad at y 'Cabinet' yn argymhelliant yr adroddiad.

Eglurwyd fod yr ysgolion wedi eu cyflwyno efo ymgynghoriad i benderfynu ar un o ddau opsiwn dyraniad cyllideb dyrannu tiroedd – 1) ail ddyranu arian cynnal tiroedd yn wahanol i'r drefn bresennol, ond fod y gyllideb cyfansymol yn aros yn un faint i'r adran Cynradd a'r adran Uwchradd. 2) i'r holl arian fod yn cael ei rannu o'r un pot i'r holl sectorau ysgolion i'w ddyrannu yn ôl yr angen.

Eglurwyd fod 13 ysgol Cynradd wedi ymateb, 3 ysgol Uwchradd wedi ymateb, 1 ymateb gan ysgolion dilynol a 0 ymateb gan ysgolion arbenigol. Nododd fod y mwyafrif

yn cefnogi cynnig o model 2. Nodwyd fod nifer o sylwadau anaddas i'r ymgynghoriad wedi eu derbyn, ond eu bod yn cael eu hystyried at ddatblygiadau pellach i'r model. Tynnwyd sylw fod nifer yn bryderus o sut oedd y gwaith yn cael ei ddosbarthu yn ôl oriau o waith, ond cysurwyd fod y drefn yma'n cael ei ystyried yn unol â'r model ddaw i law. Pryderwyd nifer am gost y cytundeb gwasanaeth, ond nodwyd nad oedd hyn yn ystyriaeth i'r ymgynghoriad yma.

Pwysleisiwyd petai newidiadau i'r gwaith cynnal tiroedd yn ôl datblygiadau'r ysgol fod angen i'r ysgol ddiweddaru'r adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i wirio yr addasiad a gwirio'r oriau o waith sydd ei angen yn unol â hynny.

Sylwadau â godwyd o'r drafodaeth-

- Gofynnwyd faint o'r 17 wnaeth ymateb oedd yn ymateb o ysgolion oedd yn derbyn llai o gyllideb? Nodwyd nad oedd y wybodaeth yma wedi ei gasglu. Mynegwyd y byddai'n fuddiol derbyn y wybodaeth yma gan y byddai'n debygol i ysgolion sydd ddim yn cael eu heffeithio neu'n derbyn mwy o arian am fod efo agwedd gwahanol i'r modelau sy'n cael eu cynnig.
- Gofynnwyd sut oedd dyraniad amser i drin gwellt yn cael ei benderfynu. Eglurwyd nad oedd maint y maes yn golygu fod angen llawer o amser i'w drin, yn hytrach fod angen ystyried yr hwylustod i'r lleoliad.
- Nodwyd ei bod hi'n bechod i gyn lleiad o bobl ymateb i'r arolwg ac felly nad yw'n cynrychioli'n deg.
- Trafodwyd os oedd hi'n deg i model 2 gael ei symud yn ei flaen efo cyn lleiad o gynrychiolaeth. Penderfynwyd fod pawb wedi cael cyfle teg i'w lenwi ac felly y dylent gario ymlaen a'r cynlluniau.

PENDERFYNIAD – Derbyn y diweddariadau a'r adroddiad.

## 14. RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyfrifydd Grŵp Ysgolion.

Nodwyd fod y rhaglen waith yn gorfod cadw at y prif nodweddion i'r Fforwm, ond eglurwyd y bydd pethau yn cael eu ychwanegu yn unol â'r materion perthnasol i amser y cyfarfod. Cadarnhawyd y bydd diweddariadau yn cael eu rhannu dros e-bost rhwng cyfarfodydd os yn berthnasol, neu cynnal Fforwm ychwanegol be pai rhaid.

Sylwadau â godwyd o'r drafodaeth-

- Cynigwyd fod angen cadw at un cyfarfod y tymor hyd yn oed os nad oes agenda llawn iawn i'w drafod. Nodwyd fod gormod o gyfnod wedi mynd heibio y tro hwn ac y byddai'n fuddiol i gael cadw cyswllt fwy rheolaidd. Mynegwyd fod cofnodion yn dyddio os yn gadael gormod o amser fynd heibio.

PENDERFYNIAD – Derbyn y diweddariadau a'r adroddiad.

## 15. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd diwedd Mehefin neu dechrau Gorffennaf yn addas.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 y.h. a daeth i ben am 4.45 y.h.